Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth

Cylchgronau Cymru
Welsh Journals Online

Awdur Author	Dafydd Jenkins,
Teitl erthygl Article title	"Llyfr Iorwerth, a critical text of the Venedotian Code of medieval Welsh law."
Teitl cylchgrawn	*Lleufer : cylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yng Nghymru.*
Journal title	*Lleufer cylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yng Nghymru.*
Rhifyn Issue	Cyf. 17, rh. 1 (Gwanwyn 1961), p. 17-23.
url	

Crëwyd a chyhoeddwyd y fersiwn digidol hwn o'r cylchgrawn yn unol â thrwydded a roddwyd gan y cyhoeddwr. Gellir defnyddio'r deunydd ynddo ar gyfer unrhyw bwrpas gan barchu hawliau moesol y crewyr.

The National Library of Wales has created and published this digital version of the journal under a licence granted by the publisher. The material it contains may be used for all purposes while respecting the moral rights of the creators.

JISC

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

IORWERTH AP MADOG A HYWEL DDA

GAN DAFYDD JENKINS

Llyfr Iorwerth, a critical text of the Venedotian Code of medieval Welsh law, gol. Aled Rhys Wiliam. Gwasg y Brifysgol. 35/-.

Rywbryd yn hanner cynta'r drydedd ganrif ar ddeg yr oedd gŵr o'r enw Iorwerth ap Madog ap Rhawd yn gweithio ar y gyfraith Gymreig rywle yng Ngwynedd. Ni wyddom ddim o'i hanes personol—pa bryd y ganed ef na pha bryd y bu farw, a oedd yn briod, pa swyddi a gafodd; ni allwn hyd yn oed fod yn sicr mai lleygwr oedd ac nid offeiriad. Mae'n debyg mai yn Arfon—tua Llandwrog—yr oedd ei gartref, oherwydd gwyddom gryn dipyn am ei dylwyth, ac yr oedd Gwely Wyrion Rhawd yn dal tir yn "nhref" Dinlle ychydig genedlaethau yn ddiweddarach. Gallai'r teulu olrhain ei achau i Gilmin Droetu: ond llawer pwysicach na hwnnw yn yr achau yw'r ffaith mai'r teulu hwn oedd y teulu pwysicaf o wŷr cyfraith yng Nghymru yn ei ddydd. O'r un cyff, yn ddiweddarach, y tarddodd teulu Glynllifon, ac aelod o gangen o'r teulu hwnnw oedd gwraig W. E. Gladstone—ond aelodau pwysicaf y teulu i ni yn awr yw mynych *ynad* y ceir eu henwau yn yr achau tua'r ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ar ddeg—gwŷr fel Morgenau Ynad, y sonnir amdano'n llunio llyfr cyfraith, a Madog Goch Ynad, a oedd efallai'n dad i Ruffudd ab yr Ynad Coch.

Ond Iorwerth ap Madog oedd yr enwocaf ohonynt, er na wyddom i sicrwydd pa waith yn union a wnaeth ef. Fe'i henwir mewn sawl man yn y llawysgrifau cyfraith fel petasai ei farn ef yn derfynol ar gwestiwn amheus; ac yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau Cymraeg hynaf, fe briodolir iddo waith golygu arbennig arnynt. Ac mae'n ddiddorol sylwi beth yw'r gwaith hwnnw—ond er mwyn egluro hynny, rhaid esbonio peth ar gynnwys y llawysgrifau. Mae'r dosbarth hwn o'r llawysgrifau'n cynnwys testun o'r cyfreithiau sydd wedi'i rannu'n dair rhan — Cyfreithiau'r Llys, Cyfreithiau'r Wlad, a'r Llyfr Prawf. Ceir sôn eto am y ddwy ran gyntaf; rhoed y drydedd ran at ei gilydd yn "Llyfr Prawf Ynaid", i gynnwys yr hyn y cytunid fod rhaid i ddyn ei wybod cyn ei fod yn gymwys i swydd barnwr.

Ar y dechrau, "Tair Colofn Cyfraith a Gwerth Gwyllt a Dof, ac a berthyn iddynt", oedd cynnwys y Llyfr Prawf; yn ôl rhai llawysgrifau, cynullwyd y cynnwys o amryw lyfrau ("Llyfr Cyfnerth fab Morgenau" yn eu plith), ac yn ôl rhai o'r llawysgrifau hynny, Iorwerth ap Madog a fu'n cynnull. Fe ychwanegwyd at y cynnwys gwreiddiol, am "fod yn gryno ysgrifennu gwerth y tai a'r dodrefn ac am gyfar a llwgr ŷd, gyda'r Llyfr Prawf", ac yn ôl y rhan fwyaf o'r llawysgrifau Iorwerth ap Madog oedd y gŵr a wnaeth yr ychwanegiad hwnnw. Gan nad yw'r llawysgrifau'n gytûn, ni allwn fod yn sicr pa faint o waith a wnaeth Iorwerth ar y llyfr: efallai mai ef a gynullodd y Llyfr Prawf a mynd ymlaen i ychwanegu'r defnydd atodiadol (ac os felly, efallai mai athro ar ddarpar-ynaid oedd ef), neu efallai mai ychwanegu'r defnydd atodiadol yn unig a wnaeth.

Fe welir fod tipyn o efallai ynglŷn â pherthynas Iorwerth ap Madog â'r llyfr, er bod y berthynas yn ddigon agos i gyfiawnhau —neu o leiaf esgusodi—defnyddio "Llyfr Iorwerth" yn enw hwylus ar y testun; ond 'does dim efallai ynglŷn â phwysigrwydd y llyfr. Dyma'r llyfr cyfraith mwyaf poblogaidd yn ei gyfnod: mae gennym hyd heddiw bedwar copi ohono a sgrifennwyd yn y drydedd ganrif ar ddeg, ac mae perthynas y copïau hynny'n dangos fod copïau eraill wedi'u gwneud, nad ŷnt ar gael mwy. Daliodd y llyfr ei boblogrwydd byth wedyn: hwn oedd y llyfr cyfraith a gopïwyd fwyaf gan hynafiaethwyr yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ar bymtheg, a'r un a argraffwyd amlaf.

Dyma fe'n awr wedi'i argraffu am y seithfed waith. Cyhoeddwyd ef gyntaf yn *Leges Wallicae* Wotton a Moses Williams, gyda chyfieithiad Lladin, yn 1730; yna, mewn orgraff arbennig a ddyfeisiwyd gan William Owen Pughe, yn nhrydedd gyfrol y *Myvyrian Archaiology* (1807); wedyn, dan yr enw "Dull Gwynedd" neu *"Venedotian Code"*, a chyda chyfieithiad Saesneg gan Aneurin Owen, yn *Ancient Laws and Institutes of Wales* (1841); yn adargraffiad Gee o'r *Myvyrian* (1870) mewn ffurf gawdeledig ar orgraff Pughe a chyda chyfieithiad Aneurin Owen; yn ffacsimile Gwenogvryn Evans o'r *Llyfr Du o'r Waun* (1909, medd yr wynebddalen: 1921, medd y llyfryddwyr); ac yng nghopi manwl Timothy Lewis o'r un ysgrif yn y *Zeitschrift für celtische Philologie* (1933).

Mae i bob un o'r argraffiadau hynny (ac eithrio efallai rai'r *Myvyrian*) ei ragoriaeth. Yn *Leges Wallicae* cymerwyd un llawysgrif o'r testun hwn yn sail, ac ychwanegu o'i gwmpas lu mawr

o amrywiadau o lawysgrifau eraill ac o destunau eraill—nes gwneud yr argraffiad yn bur ddryslyd, ond yn fynegai defnyddiol iawn i'r hyn sydd ar gael rywle mewn llyfr cyfraith; ac mae'r cyfieithiad yn aml yn rhagori ar gynigion diweddarach. Yn *Ancient Laws* llwyddwyd yn rhyfedd i grynhoi mewn un testun amrywiol ddarlleniadau'r holl hen lawysgrifau a oedd ar gael, er na ddangoswyd yn glir drefn y gwahanol lawysgrifau; ac yn argraffiadau Gwenogvryn Evans a Timothy Lewis cafwyd copïau dibynnol o'r llawysgrif hynaf, y *Llyfr Du o'r Waun* (*Peniarth* 29).

Bu rhagoriaeth y ddau argraffiad hyn yn wir yn dipyn o dramgwydd, oherwydd iddynt gryfhau'r duedd i roi gormod o bwys ar y Llyfr Du: canys er mai honno yw'r llawysgrif hynaf, nid hi yw'r bwysicaf, ac nid arni hi y seiliwyd yr hen gopïau eraill. Nid arni hi, gan hynny—ac yn sicr iawn, nid arni hi yn unig—y dylid seilio testun. Rhagoriaeth fawr yr argraffiad newydd yw ei fod yn rhoi am y tro cyntaf ffrwyth astudiaeth fanwl o berthynas y llawysgrifau, a thestun beirniadol y gellir ei ddefnyddio'n ffyddiog, ac yn hwylus. Cymerodd Dr Wiliam un llawysgrif yn sail, sef *Titus D.*11 yng nghasgliad Cotton yn yr Amgueddfa Brydeinig: hon oedd prif lawysgrif *Leges Wallicae,* a hi yw'r unig lawysgrif o'r drydedd ganrif ar ddeg sy'n gyflawn. Bu hi'n eiddo i Anian esgob Llanelwy, gŵr go bwysig ym myd cyfraith a gwleidyddiaeth Cymru yn ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg (gweler ei hanes yn argraffiad J. Conway Davies o'r *Welsh Assize Roll*), ac mae hynny'n dystiolaeth i awdurdod y llawysgrif yn ei dydd ei hun. Ond ni chyfyngodd Dr Wiliam ei hun i'r un llawysgrif: ychwanegodd gryn dipyn at ei destun o lawysgrifau eraill, cywiro weithiau yng ngoleuni'r rheini, a rhoi detholiad gofalus o ddarlleniadau amrywiol lle y gallai fod arwyddocâd iddynt. Ni lwythodd ei dudalennau ag amrywiadau geiriol; efallai y bydd ei lyfr oherwydd hynny'n llai defnyddiol i ieithyddion, ond bydd yn llawer mwy defnyddiol i haneswyr a gwŷr cyfraith.

Ni cheisiodd Dr Wiliam ddehongli'r gyfraith a geir yn y llyfr: bodlonodd ar wneud yn drylwyr ddarn pwysig o'r gwaith testunol y dywedodd F. W. Maitland bedwar ugain mlynedd yn ôl ei fod yn anhepgor cyn y gall hanesydd cyfraith weithio ar y defnydd Cymreig yn ddiogel o gwbl. Os dymunir gweld maint y gymwynas a wnaeth Dr Wiliam â ni, cymharer ei lyfr ef â *Welsh Medieval Law* Wade-Evans. Mae Dr Wiliam yn rhy hael wrth y llyfr hwnnw wrth ei gyfrif yn argraffiad beirniadol, oherwydd er

cystal argraffiad diplomatig ydyw, nid oes ynddo ddim beirniadu nac ond y sôn leiaf am berthynas y llawysgrifau â'i gilydd, ac mae'r Rhagymadrodd a'r nodiadau'n dilyn llawer trywydd hollol amherthnasol, nes bod bron yn ddiwerth fel cyfraniad at astudiaeth o'r gyfraith. Mae hynny'n arbennig o anffodus, am mai *Welsh Medieval Law* yw'r unig argraffiad modern o'r cyfreithiau a ddefnyddir gan ysgolheigion di-Gymraeg. Ymgadwodd Dr Wiliam at y defnydd ymarferol: esbonio'r hyn a wyddys am y llyfrau cyfraith yn gyffredinol a'r berthynas rhyngddynt; disgrifio'r llawysgrif a ddefnyddiodd ef a chyfiawnhau'r dewis, a dangos yn fanwl iawn ei pherthynas hi â'r llawysgrifau eraill; ac yn ei nodiadau egluro'n bennaf bynciau ieithyddol.

Llyfr o'r drydedd ganrif ar ddeg yw Llyfr Iorwerth: er iddo ddechrau â'r rhagymadrodd cyfarwydd am Hywel Dda'n galw cynhadledd o gynrychiolwyr Cymru gyfan i'r Tŷ Gwyn ar Daf, mae'n dangos yn ddigon amlwg oddi wrth ei gynnwys gyffredinol, yn ogystal â'r cyfeiriadau at Iorwerth ap Madog, fod llawer iawn ohono'n ddefnydd diweddarach nag oes Hywel. Felly, os yw perthynas Iorwerth â'r llyfr ychydig yn ansicr, mae perthynas Hywel Dda ag ef yn llawer ansicrach—ac eto, mae rhyw gysylltiad rhyngddynt. Pan gyhoeddwyd cyfrol gyntaf *Wales through the Ages* beirniadwyd Goronwy Edwards yn llym am iddo roi cymaint o'i sgwrs ef i ddangos leied o le sydd i gredu yn y gynhadledd yn y Tŷ Gwyn; ond purion peth oedd ein hatgoffa na ellir tybio fod popeth sydd mewn llawysgrif o'r gyfraith Gymreig yn dystiolaeth i amgylchiadau'r ddegfed ganrif—ac yr oedd hyd yn oed J. E. Lloyd yn cymryd golwg ar y mwyaf rhamantus ar Hywel a Blegywryd.

Serch hynny, mae'n sicr fod a wnelai Hywel rywbeth â'r gyfraith: fe sylwodd y rhai a fu'n astudio cyfraith Iwerddon, megis Thurneysen yn yr Almaen a Binchy yn Iwerddon, ar y gwahaniaeth ansawdd rhwng llyfrau cyfraith Iwerddon a rhai Cymru—gwahaniaeth na ellir yn hawdd ei esbonio ond drwy ryw waith ad-drefnu a wnaed dan ddylanwad awdurdod canolog neu unedig o'r math a gaed dan deyrnasiad Hywel Dda, a thano ef yn unig. Ac nid yw'n hawdd esbonio enw cyfraith Hywel (nac efallai'r enw Hywel Dda) heb dybio fod rhyw gysylltiad rhwng Hywel a'r gyfraith. Ond yn y llyfr hwn, fel ymhob llyfr cyfraith sydd ar gael heddiw, fe geir peth defnydd sy'n mynd yn ôl i gyfnod Hywel neu gyfnod cynharach, a pheth sy'n ychwanegiad diweddarach. Ac o'r hen ddefnydd, mae peth a oedd yn gyfraith

fyw o hyd pan gopïwyd ef, a pheth a oedd yn hen farw er i'r cyfreithwyr ddal i'w gopïo'n gydwybodol. Gan gofio'r dosbarthiadau hynny, edrycher yn awr am ychydig ar gynnwys y llyfr.

Fel y dywedwyd eisoes, mae'r llyfr yn dechrau â rhagymadrodd sy'n adrodd hanes y Tŷ Gwyn; yna daw Cyfreithiau'r Llys, sy'n llanw rhyw dri thudalen ar hugain yn yr argraffiad. Trefniadau'r llys mewn cyfnod digon cynnar sy'n llanw'r lle mwyaf yma: enwir y swyddogion a oedd â hawl i le yn y llys, a pha le yr eisteddent yn y neuadd a pha le y lletyent pan âi'r llys o amgylch y wlad, yr hawliau a oedd ganddynt ar fwyd a diod a gwisg ac yn y blaen, a dywedir rhywfaint am eu dyletswyddau. Swyddogion difyrrwch a chyfeddach yw'r swyddogion; gofalu am fwyd a diod y neuadd yw swydd y distain, ac ni ellid dyfalu oddi wrth y llyfr hwn mai math o brif-weinidog oedd Goronwy ap Ednyfed, distain Llywelyn ap Gruffudd. Defodau marw yw'r rhan fwyaf o gynnwys yr adran hon yn y llyfr, ond hyd yn oed yma fe geir rhai rheolau a oedd yn parhau'n bwysig pan ysgrifennwyd y llawysgrifau, megis y rheolau ynglŷn â'r fyddin: ni chât'r brenin fynd â'r fyddin allan o'i wlad ond unwaith yn y flwyddyn, ond gallai alw ar y fyddin pryd y mynnai y tu mewn i'r wlad.

Yn union ar ôl Cyfreithiau'r Llys daw wyth dudalen o Gyfreithiau'r Gogledd, y gellir ei chyfrif yn adran ar wahân neu'n rhan o Gyfreithiau'r Wlad. Ag eiddo y mae a wnelo'r rhan fwyaf o lawer o Gyfreithiau'r Gwragedd—peth a fuasai wrth fodd William Morris (y Sosialydd, nid yr Archdderwydd), a'r hen gymeriad hwnnw sydd ganddo yn *News from Nowhere;* rhoddir yn bur fanwl y rheolau am yr amryw daliadau a wnaed wrth i ferch gymryd gŵr, ac am hawliau'r gŵr a'r wraig ar eiddo'r cartref pan ymwahanent â'i gilydd. Eir ymlaen at Gyfreithiau'r Wlad yn yr ystyr gyfyng: adran fer sy'n rhestru'r "Naw Tafodiog", sef y tystion yr oedd eu gair yn derfynol ar faterion arbennig; adran fer ynglŷn â'r modd yr oedd yn rhaid gwneud iawn am niweidio anifail; ac yna ryw naw neu ddeg tudalen o gyfraith cytundeb.

Adran gyda'r mwyaf diddorol yn yr holl lyfrau cyfraith yw'r rhan hon o'r llyfr sy'n trafod cytundeb neu gontract. Mae ynddi beth defnydd sy'n mynd yn ôl i gyfnod na ellid dibynnu ar lys barn nac awdurdod gwladwriaeth o unrhyw fath i orfodi cytundeb, cyfnod yr oedd gofyn i bawb wneud ei drefniadau drosto'i hun. Fe wnâi hynny drwy drefnu fod *mach* ar y cytundeb. I ni heddiw, mae *meichiau* neu *machnân* (yn ôl ein tafodiaith) yn

ŵr sy'n talu dros ŵr arall os bydd hwnnw'n methu; a dyna'n fras oedd *mach* erbyn y drydedd ganrif ar ddeg. Ond ar y cychwyn, gorfodi'r gŵr arall i gyflawni'r addewid a roesai oedd swydd y mach: dyna paham y mae Llyfr Iorwerth yn cynnwys y rheol na ddylai neb wrthod mynd yn fach dros arall, a'r rheol mai'r mach a ddylai gymryd y ffonnawd gyntaf pe bai ymladd wrth geisio sicrhau'r tâl. Eto mae Llyfr Iorwerth yn cynnwys hefyd y rheolau diweddarach a oedd yn addas wedi i fechnïaeth fynd yn ffordd i sicrhau tâl drwy gyfrwng llys barn; mae'n cynnwys hefyd y rheolau ar gyfer dulliau symlach, diweddarach, o wneud cytundeb.

Cyfreithiau'r Tir yw'r rhan fwyaf o'r gweddill o Gyfreithiau'r Wlad. Rhoir disgrifiad manwl o'r modd y cynhelid llys ar y tir ei hun i benderfynu'r hawl iddo, ac megis y cymhwyswyd trefniadau mechnïaeth ar gyfer cyfundrefn y llysoedd, felly hefyd y trowyd y dull cyntefig o fynegi hawl i dir yn ffurf ar achos cyfreithiol, gan gadw'r hen enw *dadannudd*. Rhoir hefyd y rheolau ynglŷn â rhannu ac etifeddu tir; a pheth sy'n bwysig iawn, rhoir hawliau'r arglwydd neu frenin i daliadau ar gyfer y tir: mae Llyfr Iorwerth yn cyhoeddi'n bendant na ddylai un tir fod yn ddifrenin, ac yn rhestru'r hawliau a arhosai yn ei law ef pan fyddai'n trosglwyddo'r arglwyddiaeth i esgob neu fynachlog. Yr oedd y rheolau hyn yn parhau'n fyw iawn yng nghyfnod sgrifennu'r llawysgrifau: ceir digon o dystiolaeth i hynny yng nghofnodion swyddogol y Goron wedi cwymp Llywelyn.

Yna, ar ôl adran am feibion a merched a'u perthynas â'u tylwyth, peth pwysig iawn yn y cyfnod, deuwn at y Llyfr Prawf. Gyda "Thair Colofn Cyfraith" y mae hwnnw'n dechrau, sef Naw Affaith Galanas, Naw Affaith Lladrad, a Naw Affaith Tân. Gair technegol y gyfraith yw *affaith* am weithred lai na'r weithred lawn o drosedd: er enghraifft, cymryd rhan o'r lladrad yw'r wythfed o'r Naw Affaith Lladrad. Geiriau digon cyfarwydd yw Tân a Lladrad; gair dieithr iawn yw Galanas, a pheth dieithr iawn yw ei hanfod cyntaf, sef yr elyniaeth sy'n codi rhwng dau dylwyth pan leddir aelod o'r naill gan aelod o'r llall. Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg, yr oedd y gyfraith ar bwnc lladd dyn wedi datblygu ymhell iawn, ac wedi dechrau dadfeilio; yn lle bod gelyniaeth ac ymladd rhwng y naill dylwyth a'r llall, gofalai'r gyfraith fod tylwyth y lleiddiad yn talu arian neu wartheg i dylwyth y lladdedig yn ôl ei safle cymdeithasol, ac aethai *galanas* yn enw ar y tâl hwnnw, ac ar y weithred o ladd. Ac er bod y

llyfrau cyfraith yn dal i ddweud mai cyfrifoldeb y tylwyth oedd talu'r iawn, mae'n amlwg fod y cyfrifoldeb yn symud yn gyflym at yr unigolyn a wnaeth y weithred.

Nid oes yma le i sôn rhagor am Dair Colofn Cyfraith, mwy na dweud fod yn yr adrannau hynny liaws o reolau heblaw'r tri Naw Affaith, nac i ddweud mwy am y rhestrau o werth gwyllt a dof a thai a dodrefn na'u bod yn dystiolaeth werthfawr am fywyd cymdeithasol Cymru'r Oesoedd Canol; ond rhaid dweud gair am y ddwy adran olaf yn y llyfr, Cyfar a Llwgr Ŷd. Rheolau ynglŷn â'r bywyd amaethyddol sydd yn y ddwy adran a'r tebyg yw iddynt ddatblygu i'w ffurf iawn yn gymharol ddiweddar, wrth i'r boblogaeth a'r galw am dir gynyddu. Cydweithrediad amaethyddol yw pwnc y gyntaf o'r ddwy — sef yr amodau a fyddai'n rheoli'r cytundeb rhwng gwahanol ddynion ar gyfer aredig eu tir ar y cyd. Byddai un dyn yn dod â ffrâm yr aradr, un arall â'r swch a'r cwlltwr, eraill yn gweithio'n aradwr a geilwad, ac eraill yn dod â phob ei ych; mae'r llyfr yn dweud ymha drefn y dylid aredig eu tir (erw'r aradwr yn gyntaf, i fod yn safon i'w waith dros y partneriaid eraill), ac yn rhoi dyfarniadau ar lawer math o anghydfod a allai godi rhyngddynt.

Ac yn olaf oll, Llwgr Ŷd, y gyfraith ynglŷn ag iawn i berchen cnwd am niwed a wnaed i'r cnwd gan anifeiliaid gŵr arall. Mae bodolaeth y rheolau hyn wrth gwrs yn dystiolaeth i bwysigrwydd cnydau yng Nghymru erbyn y drydedd ganrif ar ddeg: er bod cryn wirionedd yn y sôn draddodiadol am y Cymry fel cenedl o fugeiliaid gwartheg a defaid, mae'n amlwg iddynt roi pwys hefyd er yn gynnar ar dyfu ŷd, ac wrth gwrs yr oedd cadw gwartheg yn golygu codi gwair. Mae'r adran hon o Lyfr Iorwerth yn dangos hefyd fod tyfu llin a bresych a chennin yn y cyfnod; ond mae'n dangos mai peth gwerthfawr na ellid yn hawdd llanw ei le oedd pob cnwd. Gwelir hynny yn ffurf yr iawn a delid: am gyfnod wedi hau'r cnwd, gellir talu iawn mewn arian yn ôl graddfa benodol ar gyfer pob math o greadur; ond yn ddiweddarach, rhaid i berchen yr anifail roi i berchen y cnwd ddarn cyfatebol o dir dan yr un cnwd; ni byddai gobaith i berchen y cnwd brynu dim yn ei le. Mae'r adran hon yn dystiolaeth werthfawr am amgylchiadau amaethyddol yr oes yng Nghymru; mae hefyd yn dystiolaeth am ddawn ac egwyddor gwŷr cyfraith y cyfnod. Nid oedd y gyfraith yn derbyn wyneb neb; un o frawddegau ola'r llyfr yw "Nid oes un dyn herwydd braint a ddylyo na ddiwyco lwgr".